| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau amgylcheddol mewn adeilad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gallai ffactorau amgylcheddol effeithio ar gysur thermol mewn adeilad. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Disgrifiwch y ffactorau mae angen eu hystyried wrth reoli llif gwres mewn adeilad, a'r rheolyddion y mae eu hangen ar system wresogi i reoli sut mae offer yn gweithredu.* | 6 | | | 6 |
| | | Gallai'r atebion gyfeirio at y ffactorau canlynol mae angen eu hystyried wrth reoli llif gwres mewn adeilad:<br>• presenoldeb neu fel arall:<br>    • ynysiad a pha mor effeithiol yw'r ynysiad hwnnw<br>    • pontydd thermol (lleoledig) sy'n gadael i wres lifo o fannau cynnes i fannau oerach (er enghraifft, clymau wal a chysylltau rhwng waliau a lloriau)<br>    • aer yn gollwng (er enghraifft, os yw amlen yr adeilad wedi'i difrodi/ei gwanio gan adael i wres lifo)<br>• mae pelydriad solar/cynnydd solar drwy ffenestri sydd mewn golau haul uniongyrchol, neu olau haul wedi'i adlewyrchu, yn gallu effeithio ar lif gwres mewn adeilad<br>• mewn adeilad sydd wedi'i ynysu'n dda, mae'r gwres mewnol sy'n cael ei gynhyrchu gan breswylwyr a gweithgareddau'n gallu effeithio ar lif gwres.<br><br>Dylai'r disgrifiad gyfeirio at y dulliau rheoli canlynol mae eu hangen er mwyn rheoli'r ffordd mae offer yn gweithio:<br>• dyfais synhwyro er mwyn cymharu cyflwr gwirioneddol yr adeilad â'r cyflwr targed/dymunol<br>• system reoli i brosesu data mewnbwn er mwyn pennu pa gamau gweithredu mae angen eu cymryd yn yr adeilad.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am y ffactorau mae angen eu hystyried wrth reoli llif gwres mewn adeilad<br>• dealltwriaeth hyderus o'r rheolyddion y mae eu hangen ar system wresogi i reoli sut mae offer yn gweithredu. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am y ffactorau mae angen eu hystyried wrth reoli llif gwres mewn adeilad<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r rheolyddion y mae eu hangen ar system wresogi i reoli sut mae offer yn gweithredu. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y ffactorau mae angen eu hystyried wrth reoli llif gwres mewn adeilad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r rheolyddion y mae eu hangen ar system wresogi i reoli sut mae offer yn gweithredu. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (c) | *Esboniwch sut mae effaith newid tymheredd ar ddefnyddwyr adeiladau preswyl yn gallu amrywio gyda'r math o adeiladwaith, a sut gall ffactorau cymdeithasol ac economaidd gynyddu'r effaith.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall yr atebion gyfeirio at y canlynol wrth esbonio effaith newid tymheredd ar ddefnyddwyr adeiladau preswyl:<br>• bydd adeiladau preswyl ag ynysiad thermol gwael yn ennill ac yn colli gwres yn gyflym, a gallai hyn achosi amodau anghysurus o boeth i ddefnyddwyr yn yr haf ac amodau anghysurus o oer yn y gaeaf<br>• gall y cyfleusterau gwresogi/oeri fod yn llai effeithlon mewn adeiladau hŷn nag mewn adeiladau mwy newydd<br>• mae adeiladau preswyl fel tyrau uchel o fflatiau'n gallu mynd yn anghysurus o boeth yn yr haf, ac efallai na fydd hi'n hawdd i'w defnyddwyr fynd i fannau awyr agored<br>• mae argaeledd mannau gwyrdd a chysgod o amgylch yr adeilad yn gallu effeithio ar newid tymheredd o fewn adeilad; mae cysgodion yn gallu lleihau cynnydd solar a lleihau newid tymheredd<br>• mae gallu gwahanol ddefnyddwyr i oddef newid tymheredd yn gallu dibynnu ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd:<br>    • oed y defnyddiwr – mae addasu i newid tymheredd yn gallu bod yn anoddach i ddefnyddwyr hŷn nag i ddefnyddwyr ifanc<br>    • iechyd y defnyddiwr – mae addasu i newid tymheredd yn gallu bod yn anoddach i ddefnyddwyr sy'n byw ag afiechyd nag i ddefnyddwyr iach<br>    • incwm y defnyddiwr – os yw defnyddwyr yn byw ar incwm isel / heb lawer o incwm gwario, gall fod yn anodd iddynt wresogi tŷ oer at lefel gysurus, neu efallai y bydd eu systemau gwresogi'n llai effeithlon neu wedi'u cynnal a'u cadw'n wael<br>    • arwahanu cymdeithasol y defnyddiwr – efallai y bydd defnyddwyr sy'n unig o safbwynt cymdeithasol yn gadael eu cartref yn llai aml ac felly y bydd yr amodau yn yr adeilad yn effeithio arnynt 24 awr y dydd.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am sut mae effaith newid tymheredd ar ddefnyddwyr adeiladau preswyl yn gallu amrywio gyda'r math o adeiladwaith<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae gallu gwahanol ddefnyddwyr i oddef newid tymheredd yn gallu dibynnu ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am sut mae effaith newid tymheredd ar ddefnyddwyr adeiladau preswyl yn gallu amrywio gyda'r math o adeiladwaith<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae gallu gwahanol ddefnyddwyr i oddef newid tymheredd yn gallu dibynnu ar ffactorau cymdeithasol a/neu economaidd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am sut mae effaith newid tymheredd ar ddefnyddwyr adeiladau preswyl yn gallu amrywio gyda'r math o adeiladwaith<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae gallu gwahanol ddefnyddwyr i oddef newid tymheredd yn gallu dibynnu ar ffactorau cymdeithasol neu economaidd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.** | (a) | *Gall llwythi ar adeileddau gael eu dosbarthu yn llwythi byw neu'n llwythi marw. Disgrifiwch, gan roi enghreifftiau, y gwahaniaeth rhwng y ddau ddosbarthiad llwyth hyn.* | 6 | | | 6 |
| | | Gall yr atebion gyfeirio at y canlynol wrth ddisgrifio'r ddau ddosbarthiad llwyth a'r gwahaniaeth rhwng y ddau:<br>• mae llwythi byw (llwythi rhoi/gosod) yn aml yn digwydd o ganlyniad i ddefnyddio adeiledd<br>• mae llwythi marw (llwythi parhaol/sefydlog) yn digwydd o ganlyniad i bwysau elfennau adeileddol yr adeilad<br>• mae llwyth byw'n gallu amrywio dros amser a symud, ac mae llwyth marw'n aros yn gyson dros amser ac yn sefydlog.<br><br>Dyma rai enghreifftiau o lwythi byw:<br>• pobl mewn adeiladau<br>• cerbydau ar bontydd<br>• llwythi sy'n cael eu codi i'w lle gan graen.<br><br>Dyma rai enghreifftiau o lwythi marw:<br>• pwysau llawr uwchben/to ar waliau adeilad<br>• pwysau adeiledd adeilad ar ei sylfeini<br>• darnau gosod sydd ddim yn symud fel peiriannau mewn ffatri.<br><br>*Derbyniwch lwythi amgylcheddol fel gwynt ar wal adeilad neu eira ar do tŷ fel llwythi byw.*<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am y gwahaniaeth rhwng llwythi byw a llwythi marw, gan ddefnyddio enghreifftiau priodol iawn i egluro hyn<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dosbarthu llwythi ar adeileddau. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan am y gwahaniaeth rhwng llwythi byw a llwythi marw, gan ddefnyddio enghreifftiau priodol i egluro hyn<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dosbarthu llwythi ar adeileddau. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth am y gwahaniaeth rhwng llwythi byw a llwythi marw<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dosbarthu llwythi ar adeileddau. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Mae to gwastad adeilad yn cael ei gynnal gan gyfres o drawstiau llorweddol. Mae pob trawst yn cynnal llwyth o 2.9kN/m sydd wedi'i wasgaru'n unffurf, yn 3.5m o hyd ac yn cael ei gynnal yn syml ar y ddau ben.*<br><br>*(i) Cyfrifwch y moment plygu uchaf ym mhob trawst.*<br>*(ii) Cyfrifwch y pellter o'r wal ar y chwith i safle'r moment plygu uchaf ym mhob trawst.*<br><br>*Dangoswch eich holl waith cyfrifo.* | | 4<br><br>1 | | 5 |
| | | Rhowch farciau am gamau perthnasol yn y cyfrifiadau fel a ganlyn:<br><br>(i)<br>• defnyddio $wL^2/8$ [1]<br>• defnyddio'r gwerth w cywir, sef 2.9, yn y fformiwla [1]<br>• defnyddio'r gwerth L cywir, sef 3.5, yn y fformiwla [1]<br>• $2.9 \times (3.5)^2 / 8 = 4.4406$kN/m [1]<br><br>Peidiwch â chosbi am unrhyw ddwyn gwall ymlaen. Dylid rhoi marciau os yw hi'n glir bod yr ymgeisydd wedi defnyddio dull mathemategol priodol.<br><br>(ii)<br>• 3.5 / 2 = 1.75m [1]<br>Rhowch y marc os yw'r ymgeisydd yn dangos y pellter o 1.75m heb gyfrifiad, oherwydd bydd wedi dangos dealltwriaeth bod moment plygu uchaf llwyth sydd wedi'i wasgaru'n unffurf yng nghanolbwynt trawst sy'n cael ei gynnal yn syml. | | | | |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **5.** | *Disgrifiwch brif elfennau dylunio goddefol integredig a thrafodwch y rhwystrau rhag, a'r sbardunau o blaid, defnyddio llawer o ddylunio tai goddefol yng Nghymru.* | 6 | | 8 | 14 |
| | Gall yr atebion gyfeirio at yr elfennau canlynol ar ddylunio goddefol integredig, sy'n helpu i sicrhau nad oes angen llawer o egni ar adeiladau i'w gwresogi a'u hoeri:<br>• cyfeiriadedd – i reoli cynnydd solar a chynyddu golau dydd (darparu golau naturiol i du mewn yr adeilad)<br>• gwydrau – gosod ffenestri sy'n lleihau colled gwres, yn cynyddu cynnydd solar ac yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer cysgodi<br>• màs thermol – defnyddio defnyddiau fel concrit sydd â màs thermol uchel fel bod yr adeilad yn amsugno gwres, yn ei storio ac yn ei ryddhau dros amser<br>• ynysiad – cyflawni lefelau ynysu thermol uchel drwy ddewis defnyddiau a defnyddio waliau allanol trwchus<br>• awyru naturiol – defnyddio agoriadau ffenestri, drysau ac awyrellau yn hytrach nag awyru mecanyddol yn ystod misoedd yr haf<br>• rheoli llifoedd aer – i osgoi colli aer cynnes neu gyflwyno aer oer, a gwneud yr adeilad yn aerglos<br>• creu parthau – cynllunio cynllun yr adeilad drwy ystyried sut caiff ystafelloedd eu defnyddio.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at y rhwystrau canlynol rhag defnyddio dylunio goddefol yng Nghymru:<br>• efallai y bydd math a maint tai presennol yn cyfyngu ar eu haddasrwydd i fod yn adeiladau preswyl yng Nghymru:<br>    ◦ mae cartrefi sy'n bodoli'n amrywio ond maent yn cynnwys tai teras ac adeileddau parod<br>    ◦ mae gan lawer o ardaloedd yng Nghymru stoc tai hen sydd ddim yn addas iawn i gynnwys dylunio goddefol<br>• gallai ffactorau cymdeithasol ac economaidd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru effeithio ar addasrwydd tai i'w defnyddio ar raddfa fawr:<br>    ◦ y galw uchel ar hyn o bryd am dai cymdeithasol rhad<br>    ◦ dydy aelwydydd incwm isel/preswylwyr mewn tai cymdeithasol (er eu bod yn debygol o elwa yn y tymor hir) ddim yn gallu fforddio gosod nodweddion dylunio goddefol<br>• agwedd ddifater perchennog/preswyliwr at ddylunio goddefol<br>• caiff llawer o gartrefi newydd eu hadeiladu gan ddatblygwyr adeiladu rhanbarthol/cenedlaethol sydd ddim yn cynnwys dylunio goddefol yn safonol.<br><br>Gall yr atebion gyfeirio at y sbardunau canlynol o blaid defnyddio dylunio goddefol yng Nghymru:<br>• y boblogaeth yn dod yn fwy ymwybodol o gyfrifoldebau amgylcheddol<br>• gallai datblygwyr llai gynnig cyfleoedd am gynlluniau tai goddefol<br>• agwedd gadarnhaol perchennog/preswyliwr at ddylunio goddefol<br>• mentrau'r llywodraeth (presennol neu yn y dyfodol) i wella tai/llesiant yng Nghymru.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir chwe marc fel ar gyfer band marcio 3. | **7-8 marc**<br>Trafodaeth ragorol sy'n dangos:<br>• barn graff a gwybodus am y rhwystrau rhag, a'r sbardunau o blaid, defnyddio llawer o ddylunio tai goddefol yng Nghymru<br>• ystyriaeth hyderus a manwl o ffactorau perthnasol, gan archwilio'n llawn eu dylanwad posibl ar ddefnyddio dylunio tai goddefol yng Nghymru. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o brif elfennau dylunio goddefol integredig<br>• dealltwriaeth hyderus o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dylunio goddefol integredig. | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• barn resymol am y rhwystrau rhag, a'r sbardunau o blaid, defnyddio llawer o ddylunio tai goddefol yng Nghymru<br>• ystyriaeth drylwyr o ffactorau perthnasol, gan archwilio eu dylanwad posibl ar ddefnyddio dylunio tai goddefol yng Nghymru. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o brif elfennau dylunio goddefol integredig<br>• dealltwriaeth sicr ar y cyfan o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dylunio goddefol integredig. | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• barn ddilys ar y cyfan am y rhwystrau rhag, a/neu y sbardunau o blaid, defnyddio llawer o ddylunio tai goddefol yng Nghymru<br>• ystyriaeth syml o ffactorau sy'n berthnasol gan fwyaf, a'u dylanwad posibl ar ddefnyddio dylunio tai goddefol yng Nghymru. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o brif elfennau dylunio goddefol integredig<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cysyniadau perthnasol sy'n gysylltiedig â dylunio goddefol integredig. | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• prinder tystiolaeth o farn am y rhwystrau rhag, na'r sbardunau o blaid, defnyddio llawer o ddylunio tai goddefol yng Nghymru<br>• diffyg ystyriaeth o ffactorau, a'u dylanwad posibl ar ddefnyddio dylunio tai goddefol yng Nghymru. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **6.** | | *Roedd adeilad uchder canolig yn arfer cael ei osod fel unedau preswyl. Mae'r perchennog wedi penderfynu ailwampio'r adeilad yn llwyr a'i drawsnewid yn ddatblygiad defnydd cymysg.*<br><br>*Caiff y llawr gwaelod ei drawsnewid yn nifer o unedau masnachol bach ac un uned fawr fydd yn gweithredu fel bar â thrwydded ar gyfer cerddoriaeth fyw. Bydd y pedwar llawr arall yn cynnwys unedau preswyl.* | | | | |
| | (a) | *Mae lleihau llygredd sŵn yn ystyriaeth bwysig yn yr adeilad wedi'i ailwampio.*<br><br>*Esboniwch sut gall y perchennog sicrhau bod sain yn cael ei rheoli'n briodol yn yr adeilad wedi'i ailwampio i sicrhau cysur preswylwyr yn yr adeilad ac mewn eiddo cyfagos, ac i gyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol.* | | 8 | | 8 |
| | | Gall yr atebion gyfeirio at reoli sain i leihau llygredd sŵn i breswylwyr a chymdogion.<br><br>Dyma ffyrdd o reoli sain wrth ailwampio'r adeilad:<br>• dylunio acwsteg yr adeilad wedi'i ailwampio i leihau effeithiau llygredd sŵn y tu mewn i'r adeilad a'r tu allan iddo<br>• sicrhau bod gan waliau sy'n gwahanu ddigon o fàs neu drwch i leihau trawsyriant sain/i gyflawni lefelau addas o ynysu acwstig<br>• sicrhau bod lloriau ar wahân:<br>    • yn cynnwys defnyddiau ynysu acwstig i leihau trawsyriant sain<br>    • yn cynnwys haen wydn i amddiffyn rhag sŵn ardrawiad<br>• gosod waliau paneli annibynnol ychwanegol ac adeileddau nenfwd â defnyddiau amsugnol a gorffeniadau estyll dwbl er mwyn cynyddu màs.<br><br>Gall atebion hefyd gyfeirio at:<br>• cyfrifoldebau'r perchennog i sicrhau bod yr adeilad yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol, ac yn benodol:<br>    • bod y Rheoliadau Adeiladu'n berthnasol i ailwampio'r eiddo hwn<br>    • bod Dogfen gymeradwy E yn nodi safonau ar gyfer y gallu i wrthsefyll sain mewn fflatiau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Esboniad gwych sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â sut gall y perchennog sicrhau bod sain yn cael ei rheoli'n briodol yn yr adeilad wedi'i ailwampio, ynghyd â'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol<br>• dealltwriaeth hyderus o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â chysur preswylwyr yn yr adeilad a'r eiddo cyfagos. |
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan ynglŷn â sut gall y perchennog sicrhau bod sain yn cael ei rheoli'n briodol yn yr adeilad wedi'i ailwampio, ynghyd â'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol<br>• dealltwriaeth gyffredinol gadarn o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â chysur preswylwyr yn yr adeilad a'r eiddo cyfagos. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut gall y perchennog sicrhau bod sain yn cael ei rheoli'n briodol yn yr adeilad wedi'i ailwampio, ynghyd â'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â chysur preswylwyr yn yr adeilad a/neu yr eiddo cyfagos. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut gall y perchennog sicrhau bod sain yn cael ei rheoli'n briodol yn yr adeilad wedi'i ailwampio, neu ynglŷn â'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol<br>• ychydig o ddealltwriaeth o gysyniadau allweddol sy'n ymwneud â chysur preswylwyr yn yr adeilad neu'r eiddo cyfagos. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (b) | *Esboniwch y gwahanol fathau o oleuo artiffisial y gallai'r perchennog eu gosod mewn mannau cymunedol, fel coridorau a grisiau, yn y pedwar llawr sy'n cynnwys unedau preswyl.* | | 6 | | 6 |
| | | Gall yr atebion gyfeirio at y mathau o oleuo artiffisial y gallai'r perchennog eu gosod mewn mannau cymunedol yn yr unedau preswyl:<br>• goleuadau uwchben yn y nenfydau i oleuo holl hyd coridorau a grisiau yn yr un ffordd<br>• goleuadau amgylchol i oleuo rhai mannau penodol yn ysgafn lle gallai golau llachar fod yn anghysurus, fel lifft<br>• goleuadau pwyslais, fel drwy ddefnyddio golau cylch i dynnu sylw at bethau neu hysbysiadau ar fwrdd dangos mewn man cymunedol<br>• goleuadau argyfwng, er mwyn rhoi digon o olau i bobl adael yr adeilad yn ddiogel<br>• goleuadau diogelwch, i oleuo mynedfa grisiau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r mathau o oleuo artiffisial sy'n addas i'w defnyddio mewn mannau cymunedol mewn unedau preswyl<br>• dealltwriaeth hyderus o'r rhesymau dros ddefnyddio mathau penodol o oleuadau artiffisial yn y cyd-destun a roddwyd. |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan ynglŷn â'r mathau o oleuo artiffisial sy'n addas i'w defnyddio mewn mannau cymunedol mewn unedau preswyl<br>• dealltwriaeth gyffredinol gadarn o'r rhesymau dros ddefnyddio mathau penodol o oleuadau artiffisial yn y cyd-destun a roddwyd. |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r mathau o oleuo artiffisial sy'n addas i'w defnyddio mewn mannau cymunedol mewn unedau preswyl<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r rhesymau dros ddefnyddio mathau penodol o oleuadau artiffisial yn y cyd-destun a roddwyd. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| **7.** | *Mae amlen allanol adeilad wedi'i hadeiladu o ddur, pren a brics. Mae'r adeilad yn mynd i gael ei ailwampio gan fod y defnyddiau hyn wedi diraddio dros amser.*<br><br>*Disgrifiwch beth allai achosi i ddur, pren a brics ddiraddio ac argymhellwch fesurau y gellid eu cymryd i ddatrys problemau posibl yn yr adeilad hwn, ac atal neu leihau diraddio pellach ar ôl ei ailwampio.* | 8 | | 12 | 20 |
| | Gall yr atebion gyfeirio at y ffactorau canlynol sy'n gallu achosi i ddur, pren a brics ddiraddio:<br><br>dur:<br>• mae dur yn gallu cyrydu pan gaiff araenau amddiffynnol eu difrodi<br>• mae difrod gan ddŵr yn gallu achosi i ddur gyrydu<br>• mae llygredd aer/nwyon asidig yn gallu cyflymu cyrydiad dur<br><br>pren:<br>• mae difrod gan ddŵr yn gallu achosi i bren naturiol bydru ac i gynhyrchion pren fel pren haenog ddad-laminiadu<br>• mae bod yng ngolau'r haul am gyfnod hir yn gallu achosi i bren gannu ei liw a diraddio<br><br>brics:<br>• mae difrod gan rew'n gallu achosi i frics ddiraddio os yw lleithder wedi treiddio i mewn i fricsen.<br><br>Gallai'r atebion gyfeirio at y mesurau canlynol y gellid eu cymryd i atal defnyddiau rhag diraddio:<br><br>dur:<br>• cael gwared â chyrydiad sy'n bresennol mewn dur, yn gemegol neu'n ffisegol<br>• gosod ffitiadau newydd yn lle rhai diffygiol a/neu rydd yn y gwaith dur yn yr adeilad<br><br>pren:<br>• os oes gwlyb-bydredd, trin y pren â ffwngleiddiad<br>• lleihau cynnwys lleithder/trwsio gollyngiadau<br>• gosod pren newydd yn lle pren sydd wedi diraddio<br><br>brics:<br>• gosod brics newydd yn lle rhai sydd wedi torri neu asglodi<br>• atgyweirio uniadau morter sydd wedi'u difrodi<br>• gosod clymau ychwanegol lle mae'r clymau presennol wedi methu. | | | | |

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gallai'r atebion gyfeirio at y mesurau canlynol y gellid eu cymryd i atal neu leihau diraddio pellach ar ôl ailwampio'r adeilad:<br><br>dur:<br>• amddiffyn rhag cyrydiad pellach drwy:<br>    • rhoi paent neu araen amddiffynnol arno<br>    • lleihau cysylltiad â glaw neu ddŵr môr lle bo'n bosibl<br>    • defnyddio cemegion sy'n atal cyrydu<br><br>pren:<br>• amddiffyn rhag diraddio pellach drwy:<br>    • araenu'r pren â thriniaethau i'w gadw rhag pydredd ac ymosodiadau gan bryfed<br>    • cadw cynnwys dŵr ar lefel briodol<br>    • peintio pren sydd yng ngolau'r haul<br><br>brics:<br>• amddiffyn rhag diraddio pellach drwy:<br>    • defnyddio seliwr gwaith maen sydd wedi'i ddylunio i ganiatáu i frics anadlu/atal y brics rhag mynd yn ddirlawn â dŵr<br>    • defnyddio brics newydd o fath/manyleb briodol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad rhagorol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr ynglŷn â'r ffactorau sy'n gallu achosi i ddur, pren a brics ddiraddio<br>• dealltwriaeth hyderus o sut gallai dur, pren a brics ddiraddio wrth gael eu defnyddio yn amlen allanol adeilad. | **10-12 marc**<br>Ymateb rhagorol sy'n cynnwys:<br>• argymhellion craff a gwybodus am fesurau y gellid eu cymryd i ddatrys problemau posibl yn yr adeilad<br>• ymdriniaeth hyderus a manwl o egwyddorion datrys problemau posibl ac atal neu leihau diraddio pellach.<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro a'i drefnu'n dda iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir.<br>• Defnyddir amrediad eang o dermau arbenigol yn gywir. |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan ynglŷn â'r ffactorau sy'n gallu achosi i ddur, pren a brics ddiraddio<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut gallai dur, pren a brics ddiraddio wrth gael eu defnyddio yn amlen allanol adeilad. | **7-9 marc**<br>Ymateb da sy'n cynnwys:<br>• argymhellion rhesymol am fesurau y gellid eu cymryd i ddatrys problemau posibl yn yr adeilad<br>• ymdriniaeth drylwyr o egwyddorion datrys problemau posibl ac atal neu leihau diraddio pellach.<br>• Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro a'i drefnu'n dda ar y cyfan, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan.<br>• Defnyddir terminoleg arbenigol yn gywir. |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau sy'n gallu achosi i ddur, pren a brics ddiraddio<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut gallai dur, pren a brics ddiraddio wrth gael eu defnyddio yn amlen allanol adeilad. | **4-6 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n cynnwys:<br>• argymhellion dilys ar y cyfan am fesurau y gellid eu cymryd i ddatrys problemau posibl yn yr adeilad<br>• ymdriniaeth syml o egwyddorion datrys problemau posibl a/neu atal neu leihau diraddio pellach.<br>• Mae peth tystiolaeth o strwythur i'r gwaith ysgrifennu ond mae gwallau i'w gweld o ran gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar yr ystyr.<br>• Defnydd sylfaenol o derminoleg arbenigol. |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig o wybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â'r ffactorau sy'n gallu achosi i ddur, pren a brics ddiraddio<br>• ychydig o ddealltwriaeth o sut gallai dur, pren a brics ddiraddio wrth gael eu defnyddio yn amlen allanol adeilad. | **1-3 marc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n cynnwys:<br>• ychydig o dystiolaeth o argymhellion am fesurau y gellid eu cymryd i ddatrys problemau posibl yn yr adeilad<br>• ychydig o ymdriniaeth o egwyddorion datrys problemau posibl neu atal neu leihau diraddio pellach.<br>• Mae rhai gwallau gramadeg, atalnodi a sillafu, sy'n effeithio ar eglurder y cyfathrebu.<br>• Defnydd cyfyngedig o dermau arbenigol. |
| | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. |

## Mapio cwestiynau i gynnwys y fanyleb a'r amcanion asesu

### Uned 3

| Cwestiwn | | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | | | | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | | | | | | | Rhan | Cyfanswm marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.3.1 | 2.3.2 | 2.3.3 | 2.3.4 | 2.3.5 | 2.3.6 | 2.3.7 | 2.3.8 | 2.3.9 | | | | | |
| **1** | (a) | (i) | 2 | | | | | | | | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | | (ii) | 2 | | | | | | | | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | | (iii) | 2 | | | | | | | | | (a) | **2** | 2 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | | | | | | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| **2** | (a) | | | 6 | | | | | | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | | | | 5 | | | | | (c) | **5** | 0 | 5 | 0 |
| **3** | (a) | | | | | | | 6 | | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | | | | | 6 | | | | (a)(b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | | | 6 | | | | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| **4** | (a) | | | | | 6 | | | | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | (i) | | | | 4 | | | | | | (a) | **4** | 0 | 4 | 0 |
| | | (ii) | | | | 1 | | | | | | (a) | **1** | 0 | 1 | 0 |
| **5** | | | | | | | | | | | 14 | (ch)(d) | **14** | 6 | 0 | 8 |
| **6** | (a) | | | | | | | | 8 | | | (b) (c) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| | (b) | | | | | | | | | 6 | | (a) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| **7** | | | | | 20 | | | | | | | (a) (b) (c) | **20** | 8 | 0 | 12 |
| Cyfanswm marciau | | | **12** | **6** | **20** | **17** | **5** | **12** | **8** | **6** | **14** | | **100** | **50** | **30** | **20** |